Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service

Strategaeth Ymchwil, Datblygu ac Arloesi

Research, Development & Innovation Strategy

Sut y byddwn yn cynnal ymchwil
i wella bywydau pobl Cymru

How we will perform research
to improve the lives of people in Wales

Rhagair

Ers 2017, mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi cychwyn ar daith ymchwil ac arloesi ryfeddol. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi cwblhau mwy na 100 o brosiectau ymchwil, pob un yn cyfrannu at ein dealltwriaeth a gwella gwasanaethau gwaed a gofal cleifion.

O ganlyniad, rwy'n hynod falch o gyflwyno ein strategaeth newydd, gan adeiladu ar y sylfeini cadarn yr ydym wedi'u gosod. Mae ein cyflawniadau yn destament i ymroddiad ac arbenigedd ein staff a'r partneriaethau amhrisiadwy rydym wedi'u meithrin gyda'r byd academaidd, sefydliadau eraill y GIG, cyllidwyr, partneriaid diwydiant, ac arweinwyr addysgol. Rydym wedi ennill arian grant ac wedi ffurfio partneriaethau ledled Cymru, y DU, ac yn rhyngwladol.

Mae'r cydweithrediadau hyn wedi ehangu ein galluoedd ymchwil ac wedi sicrhau bod ein gwaith yn parhau i fod ar flaen y gad o ran datblygiadau gwyddonol a meddygol.

Wrth i ni symud ymlaen, byddwn yn canolbwyntio ar feithrin arloesi, ehangu ein rhwydweithiau cydweithredol, a gwella ein seilwaith ymchwil. Drwy wneud hynny, ein nod yw parhau i gyflawni gwaith o'r radd flaenaf sy'n gwella canlyniadau cleifion a rhoddwyr ac sy'n cefnogi amcanion gofal iechyd ehangach GIG Cymru.

Hoffwn ddiolch i'n holl gydweithwyr, partneriaid, a rhanddeiliaid am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau cyson. Trwy ein hymdrechion ar y cyd, rydym wedi cyflawni llawer o lwyddiannau a byddwn yn parhau hybu'r agenda Ymchwil, Datblygu ac Arloesi er budd pobl Cymru.

Diolch i chi am eich ymroddiad a'ch ymrwymiad parhaus.

Alan Prosser, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwaed Cymru, Rhagfyr 2024

Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service

GIG CYMRU NHS WALES
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre
Velindre University NHS Trust

GIG CYMRU NHS WALES

Beth yw pwrpas y strategaeth hon

Bydd y strategaeth hon yn arwain gweithgareddau ymchwil a phartneriaethau Gwasanaeth Gwaed Cymru gyda'r byd academaidd, sefydliadau eraill y GIG, cyllidwyr, partneriaid diwydiant, ac arweinwyr addysgol yn y blynyddoedd i ddod, gyda'r nod o wella bywydau pobl yng Nghymru.

Mae'n amlinellu'r nodau allweddol yn ei 'Chenhadaeth', gyda'r mesurau llwyddiant, ac yn manylu ar y cyfrifoldebau ar gyfer cyflawni amcanion y strategaeth.

I bwy mae'r strategaeth hon?

Mae'r strategaeth hon ar gyfer cydweithwyr, cydweithredwyr, rhoddwyr, cleifion, a phobl Cymru. Mae'n dangos sut y bydd Gwasanaeth Gwaed Cymru yn arwain ac yn darparu adnoddau ar gyfer gweithgareddau ymchwil, datblygu ac arloesi o fewn gofal iechyd, sut y bydd yn darparu gwasanaethau gwaed a thrawsblannu a meysydd perthnasol eraill a fydd yn gwireddu ein Gweledigaeth.

Fe'i cynlluniwyd i ganolbwyntio ar sut y bydd Gwasanaeth Gwaed Cymru a'n partneriaid yn GIG Cymru yn gweithio gyda'r byd academaidd a sefydliadau'r GIG, gan gysylltu â chyllidwyr, partneriaid diwydiant, ac arweinwyr addysgol yn y seilwaith ategol i gyflawni ymchwil, datblygu ac arloesi.

Ein dull gweithredu

Cyhoeddodd Gwasanaeth Gwaed Cymru ei strategaeth ymchwil ffurfiol gyntaf yn 2017. Dros y blynyddoedd dilynol, rydym wedi cwblhau dros 100 o brosiectau yn ystod y cyfnod hwn tra'n cael ein llywio gan ffactorau fel pandemig 2020, newidiadau sefydliadol, a chyfeiriadau a dylanwadau sy'n datblygu o hyd.

Fe ddysgon ni beth yw ein cryfderau, pa feysydd wedi'u targedu sydd wedi datblygu'n dda, a pha fylchau sydd gennym ni o ran gweithgaredd, capasiti ac ysgogi.

Mewn meysydd lle rydym wedi cael llwyddiant mawr, byddwn yn parhau i gadarnhau ein hymagwedd tra'n addasu ein strategaeth mewn meysydd lle nad ydym wedi cwrdd â'n disgwyliadau. Bydd llwyddiant y strategaeth hon yn cael ei fesur yn nhermau gweithredu a nodau perfformiad. Bydd ei weithrediad yn sicrhau bod amcanion ymchwil, datblygu ac arloesi Strategaeth 5 Mlynedd Gwasanaeth Gwaed Cymru a Chyrchfan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre 2033 yn cael eu diffinio a'u bodloni ymhellach. Yn ogystal â hynny, bydd dangosyddion perfformiad yn cael eu dewis a'u monitro i sicrhau bod nodau'r

strategaeth hon yn cael eu cyflawni i fodloni disgwyliadau.

Yn ogystal â hyn, wrth ddatblygu'r strategaeth hon, buom yn ymgysylltu'n fras ag amrywiol grwpiau a fforymau rhanddeiliaid, gan gynnwys ein cydweithwyr, arweinwyr y sefydliad a phartneriaid allanol. Mae'r ddeialog eang wedi dangos bod uchelgeisiau penodol sy'n canolbwyntio ar ymchwil yn cael eu cefnogi'n dda, ond tynnodd rhanddeiliaid sylw at y cyfle hwn i ailffocysu a gwella. Rydym yn gwerthfawrogi sylwadau a safbwyntiau amrywiol ein rhanddeiliaid yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu.

Mae manylion yr hyn a ddysgwyd gan y sefydliad yn ystod y dull gweithredu wedi'u casglu yn atodiadau'r strategaeth hon.

Yn seiliedig ar yr uchod, rydym wedi nodi saith cenhadaeth ar gyfer ein strategaeth, manylir arnynt isod.

Arweinyddiaeth

Byddwn yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar gyflawni er mwyn gwireddu'r cynllun hwn. Bydd y strategaeth hon yn llywio'r gwaith o gynhyrchu cynllun cyflawni blynyddol, yn amlinellu'r camau gweithredu penodol sydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth. Dim ond dros y tymor hir y bydd llawer o ganlyniadau'n cael eu cyflawni. Bydd ein cynllun cyflawni blynyddol, felly, yn ffordd bragmatig o gyflawni yn y tymor byr wrth symud ymlaen ochr yn ochr ag uchelgeisiau hirdymor gyda rhywfaint o newid ac addasu ein diwylliant.

Bydd Gwasanaeth Gwaed Cymru yn sicrhau bod gennym yr arbenigedd, y capasiti a'r gwaith rheoli perfformiad prosiectau. Er mwyn cyflawni'r strategaeth hon, byddwn hefyd yn cynnal perthnasoedd â phartneriaid, grwpiau a rhwydweithiau gwasanaeth gwaed.

Ar yr un pryd, bydd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre hefyd yn cyflawni'r strategaeth hon trwy gamau rheoli penodol a ddisgrifir yn y 'genhadaeth'. Mae cymorth corfforaethol yn hanfodol ar gyfer cynnal perthnasoedd rhwng GIG Cymru a'i gyllidwyr llywodraeth, gan sicrhau bod buddiannau Gwasanaeth Gwaed Cymru yn cael eu cynnwys ym mhob rhyngweithiad corfforaethol angenrheidiol, a sicrhau cyllid, proffil, a chynhwysiant digonol mewn gweithdrefnau a rhaglenni llywodraethol perthnasol.

Fel un o gyrff GIG Cymru, mae gennym rôl o ran cefnogi darpariaeth gofal cyffredinol Byrddau Iechyd GIG Cymru. Rhaid inni ddefnyddio gwasanaethau sefydliadau ategol megis Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i gyflawni uchelgais y strategaeth hon yn ddigonol, sicrhau newid mesuradwy a chynaliadwy ym mholisi'r llywodraeth, a dylanwadu ar newid.

Ein Gweledigaeth

Bydd Gwasanaeth Gwaed Cymru yn cynnal ymchwil ac yn arloesi i wella canlyniadau i bobl Cymru.

Y cenadaethau sy'n cefnogi ein gweledigaeth yw

1. Canolbwyntio ar wella gofal cleifion a rhoddwyr.
2. Datblygu Cyfansoddion Gwaed
3. Hyrwyddo Ymchwil Trawsblannu yng Nghymru
4. Byddwn yn defnyddio Arloesi a Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth i wella ein gwasanaethau a'n perfformiad
5. Cydweithio i Gynnal Ein Hymchwil, Datblygu ac Arloesi.
6. Gwasanaethu pobl Cymru drwy gefnogi mentrau rhyngwladol.
7. Gwella effaith ymchwil a datblygu ac arloesi a dathlu llwyddiant.

Cenhadaeth Un

Canolbwyntio ar wella gofal cleifion a rhoddwyr.

Mae angen inni ddarparu arweinyddiaeth ymchwil gadarn ar gyfer GIG Cymru ac, i gyflawni hyn, rhaid inni ddod ag arweinwyr barn glinigol a chleifion ynghyd.

Rhaid inni greu diwylliant ar gyfer ein cydweithwyr er mwyn sicrhau bod llais y claf yn cael ei glywed a'i wasanaethu'n glir gan greu sail i bopeth a wnawn mewn gwaith ymchwil.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein panel ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd fel dilysydd ar gyfer gweithgaredd blynyddol, gan wirio eu hasesiad o sut rydym yn bodloni eu disgwyliadau.

Byddwn yn parhau i gefnogi datblygiad proffesiynol ein hymchwilwyr o ran ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd. Byddwn yn cymryd camau i wella'r diwylliant ymchwil ar draws y sefydliad, gan ategu a gwella'r diwylliant sefydliadol presennol yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru.

Mae angen i ni fod yn arweinydd cadarnhaol i'r GIG ar faterion ymchwil ac arloesi sy'n ymwneud â thrallwyso a thrawsblannu, gan gynyddu ein rôl arwain drwy gefnogi partïon allanol fel **Grŵp Cynghori Cenedlaethol** Iechyd Gwaed a phob rhan o seilwaith GIG Cymru. Ar y llwyfan cenedlaethol, rhaid inni sicrhau ein bod yn cyflawni ar gyfer GIG Cymru yn rhyngwladol, megis y Rhaglen Gydweithredol Rhagoriaeth Biofeddygol ar gyfer Trallwyso Mwy Diogel.

Byddwn yn sicrhau'r canlynol:

- Parhau i gefnogi cyfraniad gweithredol at gynnwys y cyhoedd a chleifion er mwyn sicrhau bod mewnbwn cleifion a'r cyhoedd yn cael ei ystyried ar bob cam o'n hymchwil, cynllunio a chyflawni.
- Archwilio sut y gallwn hyrwyddo cleifion Cymru, ymgysylltu â nhw, a gwybod sut y gallwn eu cynrychioli ar lwyfan y byd trwy gyhoeddiadau a chyhoeddusrwydd.
- Byddwn yn cyflwyno elfennau o graffu allanol wrth lunio ein cynlluniau i sicrhau bod y llwybrau yr ydym yn eu harchwilio yn parchu ein nod o ganolbwyntio ar gleifion.
- Nodi ffyrdd o atgyfnerthu ymchwil, datblygu ac arloesi fel rhannau allweddol o'n diwylliant arweinyddiaeth.

Cenhadaeth Dau

Datblygu Cyfansoddion Gwaed.

Mae cyfansoddion gwaed fel arfer yn cael eu hystyried yn rhai safonol a sefydlog; fodd bynnag, mae gennym yr arbenigedd a'r awydd i ddylunio a chynhyrchu cyfansoddion newydd sy'n fwy addas ar gyfer senarios clinigol penodol pan fo modd.

Mae angen i ni hefyd allu ymateb gyda datrysiadau ymarferol os oes angen newidiadau. Bydd y cyfansoddion newydd hyn yn gwella bywydau'r derbynwyr.

Yn 2018, fe wnaethom lansio'r cyfleuster annibynnol cyntaf i fynd i'r afael â'r uchelgais hwn. Y Labordy Datblygu Cyfansoddion ac Ymchwil ("CDRL") sy'n sylfaenol i'n cynlluniau i gyflawni'r genhadaeth hon trwy ddarparu capasiti pwrpasol sydd â dulliau ymchwilio arloesol wrth wraidd y prosiect.

Mae CDRL wedi mabwysiadu dull newydd o ddarparu adnoddau ymchwil yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru. Mae swyddi pwrpasol wedi'u rhoi ar waith i gyflawni'r uchelgais hwn, a ganiatawyd gan ddyfarniadau cyllid a llwyddiant o ran grantiau. Mae CDRL hefyd wedi datblygu swyddi cylchdro a lleoliadau ymweld o'r byd academaidd a'r fyddin, sy'n cyd-fynd â'n datganiadau cenhadaeth eraill. Mae CDRL wedi perfformio dros 20 o brosiectau yn ystod y cyfnod hwn a gwelwyd cynnydd o £75,000+ yn y grantiau a gynhyrchir yn 2023-24. Yr uchelgais yn y dyfodol yw trosi datblygiadau yn y labordy i'r maes clinigol. Rydym eisoes yn cymryd rôl arweiniol yn y gweithgareddau i Gymru, gan feithrin cysylltiadau â'r lluoedd arfog, y GIG, a'r byd academaidd ym maes meddygaeth frys a gofal dwys.

Byddwn yn gwneud y canlynol

- Ehangu ein harbenigedd arbrofi i dechnolegau uwch fel microhylifau a hwyluso mynediad i gydweithredwyr i gefnogi hyn.
- Creu amgylcheddau i ddenu talent a meithrin gallu trwy greu swyddi cylchdro a galluogi ymchwilwyr allanol i ymweld.
- Addysgu'r cyhoedd a chyllidwyr i ddeall sut y bydd ein huchelgeisiau o fudd iddynt.
- Sicrhau ein bod yn dylanwadu ar newidiadau diwydiant a rheoleiddio sy'n effeithio ar heriau gweithrediadau a pharatoi ar gyfer newid.
- Cael ein hadnabod fel arweinydd ym maes platennau wedi'u storio'n oer trwy gynhyrchu incwm parhaus sy'n hwyluso perfformiad, a chyhoeddi ymchwil effaith uchel.
- Bydd ymchwilwyr ac arloeswyr yn dewis gweithio gyda Gwasanaeth Gwaed Cymru oherwydd ein henw da.

Cenhadaeth Tri

Hyrwyddo Ymchwil Trawsblannu yng Nghymru.

Bydd Gwasanaethau Trawsblannu Gwasanaeth Gwaed Cymru yn parhau i gefnogi ymchwil ac arloesi ar gyfer darpariaeth trawsblannu organau a bôn-gelloedd yng Nghymru.

Mae ein gwasanaethau'n effeithio'n uniongyrchol ar fywydau cleifion sydd angen trawsblaniad organ neu bôn-gelloedd neu sy'n byw gyda hwy. Mae eu llesiant wrth wraidd popeth a wnawn.

Ers 2017, mae gwyddonwyr gofal iechyd wedi cwblhau sawl prosiect i ddod o hyd i ddatrysiadau mwy arloesol i fynd i'r afael â heriau clinigol. Yn ddiweddar, maent wedi canolbwyntio ar ganfod biofarcwyr i ragfynegi swyddogaeth ôl-drawsblaniad a chanfod gwrthodiad, gyda'r nod o wella llwybrau gofal clinigol.

Cyflawnwyd y gallu i berfformio ymchwil, datblygu ac arloesi wrth i wyddonwyr ychwanegu at eu hyfforddiant sy'n gysylltiedig â chymwysterau trwy leoliadau a gwaith prosiect.

Er bod cyflawniadau'r unigolion sydd wedi gwneud hyn wedi bod yn arwyddocaol, nifer cymharol fach o'r unigolion sydd wedi cyflawni ymchwil drwy'r dull hwn. Felly, ein nod yw ehangu'r cyfleoedd dysgu a datblygu posibl i wyddonwyr eraill ac edrych ar ddulliau eraill o ddarparu capasiti, gan ganiatáu llif o staff i wneud ymchwil trwy amser wedi'i neilltuo'n bwrpasol, lleoliadau cylchdro neu hyd yn oed secondiad mewn mannau eraill.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Gweithio tuag at sicrhau allbwn datblygu ymchwil ac arloesi cynaliadwy ym maes trawsblannu sy'n gwella gofal cleifion. Byddwn yn ymchwilio i ffyrdd o gynyddu'r gallu i gyflawni hyn.
- Adeiladu ar berthnasoedd presennol ym **Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** ac Uned Ymchwil Arennau Cymru, a mynd ati i chwilio am gyfleoedd newydd i gydweithio.
- Parhau i gefnogi prosiectau gwyddonol a chlinigol.

Cenhadaeth Pedwar

Byddwn yn defnyddio Arloesi a Gofal Iechyd sy'n seiliedig ar Werth i wella ein gwasanaethau a'n perfformiad.

Byddwn yn canolbwyntio ar hyrwyddo arloesi mewn meysydd lle rydym yn darparu gwasanaethau ac o bosibl yn gallu gwneud newidiadau i wella eu hansawdd, eu diogelwch a'u heffeithlonrwydd.

Mae gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre ddau dîm gwasanaeth penodol ar waith i reoli'r ymdrechion hyn sy'n gysylltiedig â seilwaith cenedlaethol - Timau Arloesi Felindre a Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth Felindre. Byddwn yn integreiddio'n uniongyrchol â'r timau hyn i adeiladu portffolio gweithgarwch arloesi Gwasanaeth Gwaed Cymru sy'n rhychwantu gweithgarwch craidd a swyddogaethau ategol.

Er mwyn galluogi hyn, byddwn yn sicrhau bod y dyhead a'r agenda hon yn cael eu lledaenu i swyddogaethau ac adrannau ategol Gwasanaeth Gwaed Cymru. Bydd hyn yn gofyn am ganolbwyntio ar feysydd sy'n gwneud yr agenda Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yn berthnasol, megis digidol, storfeydd, a chyfleusterau, ac ysgogi arloesi yn y meysydd hyn.

Ar yr un pryd, byddwn yn sganio'r gorwel ar gyfer y meysydd arbenigol hyn. Byddwn yn cynnwys timau Digidol yn amlach yng ngwaith Ymchwil ac Arloesi Gwasanaeth Gwaed Cymru ac yn archwilio defnyddio dadansoddeg data, deallusrwydd artiffisial, a thechnolegau iechyd digidol i wella effeithlonrwydd gweithredol, olrhain a gwneud penderfyniadau yn y gwasanaeth gwaed.

Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cychwyn ffrwd waith bwrpasol i reoli portffolio o feysydd sy'n barod i arloesi a hyrwyddo meddylfryd archwiliadol ymhlith yr holl staff.
- Darparu cynllun blynyddol i ganolbwyntio ar gyflawni arloesi.
- Defnyddio galluoedd ym maes arloesi mewn gwasanaethau cymorth. Ceir hyn trwy ddefnyddio cynlluniau ariannu sy'n seiliedig ar arloesi. Disgwyliwn gefnogi'r gwaith o gynhyrchu cynlluniau ar gyfer Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yn yr adrannau hyn drwy ddarparu swyddogaethau cymorth. Byddem hefyd yn goruchwylio'r gweithgarwch ymchwil, datblygu ac arloesi dilynol ac yn lledaenu canlyniadau.

- Defnyddio timau Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre i berfformio gweithgareddau arloesi yng ngwasanaethau gweithredol a chymorth Gwasanaeth Gwaed Cymru, gan hyrwyddo newid diwylliant i integreiddio arloesi yn y llif gwaith fel rhan annatod o'r meysydd hyn.

Cenhadaeth Pump

Cydweithio i Gynnal Ein Hymchwil, Datblygu ac Arloesi.

Mae cydweithredu yn tanlinellu uchelgais Ymchwil ac Arloesi Gwasanaeth Gwaed Cymru gyfan.

Mae hyn yn sicrhau cadernid ymagweddau at Ymchwil, Datblygu ac Arloesi ac yn lleihau risgiau os bydd personél neu gapasiti yn newid. Ers 2017, mae'r dull hwn wedi cynnal y rhan fwyaf o'r ymchwil a wneir yma, gyda thros 95% o brosiectau ag elfen gydweithredol. Mae Pwynt Strategol 5 o Strategaeth 5 Mlynedd GGC hefyd yn nodi bod yn rhaid i ni wella cydweithrediad â sefydliadau academaidd, sefydliadau gofal iechyd a chanolfannau ymchwil i drosoli arbenigedd ac adnoddau ar y cyd ar gyfer ymchwil gwerth chweil.

Yma, rydym yn disgrifio ein hymagwedd at gydweithredu, ac yn bwysicach oll, i ddod o hyd i'r cyllid i gynnal ein dull.

Drwy gydweithio ag academyddion, rydym wedi darganfod bod ein ffynonellau cyllid wedi dod yn fwy amrywiol, hygyrch, a pharod i dderbyn ein mentrau. Felly, rydym yn ystyried partneriaethau academaidd yn hollbwysig ar gyfer datblygu cynaliadwyedd yn ein gweithgareddau.

Dylem flaenoriaethu ffurfio partneriaethau gyda sefydliadau academaidd. Tra'n canolbwyntio ar y manteision i Gymru, rhaid inni gydnabod hefyd na ddylem gyfyngu ein hunain i'n ffiniau daearyddol. Byddwn yn dilyn partneriaethau sydd o fudd i'r ddwy ochr gyda chyrff academaidd ledled y DU a, phan fo'n bosibl, mewn rhannau eraill o'r byd.

Rydym yn ymwybodol bod partneriaethau milwrol penodol yn bwysig i'r nod hwn. Mae'r fyddin yn aml yn weithgar mewn amodau eithafol ac yn llythrennol ar flaen y gad mewn llawer o waith ymchwil yn y maes hwn o drallwysiad. Mae'r maes hwn o ddatblygiad yn allweddol mewn cymwysiadau defnydd newydd o gyfansoddion gwaed.

Wrth inni aeddfedu, rydym yn cydnabod bod rhai meysydd o gydweithio yn briodol i'w datblygu'n berthnasoedd cwbl fasnachol. Rydym wedi cyflwyno fframweithiau cytundebol yn ddiweddar i gefnogi'r ymchwilwyr i sefydlu partneriaethau masnachol o'r fath. Byddwn yn parhau i gefnogi'r dull hwn ac rydym yn awyddus iddo gynnal ein gweithgarwch Ymchwil, Datblygu ac Arloesi.

Byddwn yn gwneud y canlynol

- Ystyried secondiadau sy'n caniatáu i ymchwilwyr allanol gael eu lleoli yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru i ddarparu'r gallu i fynd i'r afael â bylchau yng ngalluoedd Gwasanaeth Gwaed Cymru, sy'n caniatáu cydweithio a throsi canfyddiadau ymchwil yn gynt ac mewn modd ymarferol.
- Gweithio gydag arweinwyr yn ein sefydliad i sicrhau bod prosesau ar waith ar gyfer lleoliadau amserol. Pan fo modd, dylid diffinio safbwyntiau contractio a negodi ymlaen llaw, o ran llinellau cyfrifoldeb clir ar gyfer gwneud y trefniadau hyn.
- Parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer cydweithio, gan chwarae rhan weithredol mewn rhwydweithiau rhyngwladol. Mewn meysydd lle mae'n ymarferol, byddwn yn mynd ar drywydd cyllid grant a chydweithrediadau sy'n hwyluso ad-dalu grantiau ac yn gwneud y mwyaf o'n ffrydiau incwm.
- Ei gwneud yn flaenoriaeth i chwilio am gyfleoedd cydweithredol masnachol mewn meysydd addas, gan ganiatáu ad-daliad llawn a meithrin gallu. Byddwn yn ceisio cynyddu faint o gasgliadau masnachol a gyflawnir gennym, lleihau gwastraff, a chreu incwm, gan gynnal niwtraliaeth cost i'r gwasanaeth.
- Gweithio gydag ymchwilwyr Gwasanaeth Gwaed Cymru a sefydliadau partner, megis, ond heb fod yn gyfyngedig i, brifysgolion partner er mwyn cyflawni naill ai swyddi academaidd anrhydeddus neu ar y cyd.
- Integreiddio â rhaglenni'r llywodraeth i gyflawni'r strategaeth yn llwyddiannus drwy ariannu capasiti'r gweithlu. Byddwn yn parhau i weithio gyda Rhaglen Strategaeth Gwyddonwyr Gofal Iechyd Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Cenhadaeth Chwech

Gwasanaethu pobl Cymru drwy gefnogi mentrau rhyngwladol.

Bydd Gwasanaeth Gwaed Cymru yn cynnal perthynas agos â chyrff iechyd cyhoeddus er mwyn sicrhau iechyd y genedl a sicrhau parodrwydd ac ymateb priodol i anghenion iechyd byd-eang. Byddwn yn cynnal y berthynas agos ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a ddaeth i'r amlwg yn ystod pandemig COVID-19.

Mae ffactorau amgylcheddol ychwanegol, yn enwedig newid yn yr hinsawdd, yn bwysicach fyth ac yn fater brys. Ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, mae cynaliadwyedd ac olion traed carbon yn dod i'r amlwg fel meysydd ymchwil gwyddonol sydd wedi'u hesgeuluso. Byddwn yn cychwyn portffolio o brosiectau i archwilio cynyddu targedau yn ein nod cynaliadwyedd, gan arwain at Gymru wyrddach a mwy cynaliadwy.

Byddwn yn gwneud y canlynol

- Cefnogi effeithiau iechyd megis asesiad risg unigol. Fel arbenigwyr pwnc, byddwn yn ymateb i anghenion byd-eang o fewn ein maes arbenigedd.
- Parhau i gefnogi darpariaeth sampl i Iechyd Cyhoeddus Cymru at ddibenion cadw gwyliadwriaeth ar feirysau ac i gefnogi mentrau iechyd y cyhoedd mewn modd sydd o fudd i'r ddwy ochr, a bod y llwybrau i gyflawni hyn bob amser yn agored.
- Sicrhau y gall uwch arweinwyr ac arweinwyr gweithredol elwa ar fwy o gyfranogiad mewn rhaglenni ac arferion ymchwil i ddeall yn well y naws yn y cefndir gweithredu, sgiliau a gwybodaeth.
- Hwyluso cyfranogiad sefydliadau GIG Cymru mewn cyfleoedd gwasanaethau gwaed rhyngwladol ac arwain cyfranogiad GIG Cymru mewn Rhaglen Gydweithredol Rhagoriaeth Fiofeddygol ar gyfer Trallwyso Mwy Diogel a Chynghrair Gwaed Ewropeaidd. Defnyddio cyfleoedd a cheisio meithrin rhwydwaith sy'n caniatáu i Wasanaeth Gwaed Cymru ddefnyddio'r rhain a rhwydweithiau rhyngwladol eraill ar gyfer ymchwil pellach.

Cenhadaeth Saith

Gwella effaith ymchwil a datblygu ac arloesi a dathlu llwyddiant.

Mae'r strategaeth hon yn rhan o Strategaeth 5 Mlynedd Gwasanaeth Gwaed Cymru. O ystyried yr uchod, byddwn yn addasu'r oruchwyliaeth o Ymchwil, Datblygu ac Arloesi i sicrhau bod y broses o adrodd ar gynnydd cyflawni'r strategaeth hon yn cael ei haddasu i arolygiaeth strategol gyffredinol Gwasanaeth Gwaed Cymru.

Mae tua thraean o'r holl weithgareddau ymchwil, datblygu ac arloesi yn gofyn am gydrannau a sgiliau digidol a data o'n hadran Ddigidol neu feysydd eraill. Rhaid inni sicrhau mynediad prydlon at yr adnoddau hyn i gefnogi ein strategaeth a rheoli'r galwadau cyfnewidiol a ddaw yn ei sgil.

Byddwn yn archwilio cyfleoedd i sicrhau bod aelodau unigol o staff yn cael y gefnogaeth o ran adnoddau, amser ymchwil wedi'i ddiogelu, cyllid, a chapasiti llwyth gwaith, gyda mewnbwn a chymorth strategol gan uwch arweinwyr yn y sefydliad. Bydd y mewnbwn arweinyddiaeth a'r gefnogaeth hon yn gwella enw da'r sefydliad. Yn ogystal â hynny, mae'r dull hwn yn debygol iawn o fod yn allweddol i leihau y risg o gyfradd gadael staff uwch. Mae hefyd yn cydnabod rôl Ymchwil, Datblygu ac Arloesi fel ffynhonnell brofedig o gyllid newydd a ffrydiau incwm arwahanol wrth ddenu staff a phartneriaethau newydd i'r sefydliad.

Gan ein bod yn dibynnu ar raglenni allanol a sefydliadau addysgol i ddarparu'r hyfforddiant angenrheidiol i ymchwilwyr newydd i sicrhau cydraddoldeb a chynhwysiant i ymchwilwyr, byddwn yn cyflwyno metrig i fonitro'r mynediad hwn.

Byddwn yn cyfrannu at ddatblygu Strategaeth Glinigol a Gwyddonol Felindre i gynnwys y mater hwn.

Byddwn yn gwneud y canlynol

- Cynhyrchu cynllun cyfathrebu manwl i wella amlygrwydd, hygyrchedd a lledaenu canlyniadau ymchwil. Bydd hyn yn sicrhau bod staff Gwasanaeth Gwaed Cymru yn ymwybodol o'r portffolio ymchwil drwy gyfathrebiadau allgymorth a dathliadol.
- Ymrwymo i fod yn sefydliad sy'n arwain newid trwy dystiolaeth, sy'n hyrwyddo ymchwil, datblygu ac arloesi, ac yn lledaenu ein gwybodaeth newydd yn dda.
- Gweithredu mesurau i fonitro amrywiaeth a chynhwysiant, gan sicrhau bod cyfleoedd Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yn gynrychioliadol ac yn hygyrch i bob aelod o staff a derbyn cyngor arbenigol gan y tîm sefydliadol.

- Sicrhau bod ein staff a'n cydweithwyr yng Nghymru yn ymwybodol o effaith Ymchwil, Datblygu ac Arloesi ar wella canlyniadau cleifion a galluogi rhoddwyr i gefnogi cleifion.

- Anelu at ddatblygu ein fframwaith perfformiad ymhellach i'n helpu i olrhain cynnydd prosiectau a'r rhwystrau a all godi. Bydd cyflwyniad ein strategaeth yn cael ei ddadansoddi'n rheolaidd, ac eir i'r afael ag unrhyw fylchau neu rwystrau sgiliau yn ôl yr angen. Bydd y pwyllgor Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yn gyfrifol am fonitro'r perfformiad hwn, a oruchwylir gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

  Byddwn yn mesur perfformiad yn erbyn cynllun blynyddol gan ddefnyddio dangosyddion perfformiad allweddol, yn unol â phrosesau llywodraethu ein sefydliad.

- Sicrhau bod arweinwyr ein sefydliad yn cael eu briffio'n briodol mewn da bryd i'w galluogi i hyrwyddo'r rhaglen Ymchwil, Datblygu ac Arloesi wrth rwydweithio o ddydd i ddydd. Bydd arweinwyr yn ein sefydliad hefyd yn allweddol wrth hyrwyddo Gwasanaeth Gwaed Cymru i'n cyllidwyr a noddwyr y llywodraeth.

- Sicrhau bod yr adnoddau a'r sgiliau i gefnogi gweithgaredd Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yn eu lle trwy ein Uwch Dîm Arwain. Byddwn yn sicrhau bod cyfleoedd sy'n cynnwys tegwch yn cael eu darparu, boed yn adrannol neu'n gorfforaethol.

  Gofynnir i uwch arweinwyr ac arweinwyr gweithredol am eu disgwyliadau yn flynyddol ac yn rhannu adborth ar gynnydd fel y gallwn fesur y gwasanaeth yn effeithiol.

- Rhoi gwybod i roddwyr am gynnydd yn erbyn cerrig milltir. Efallai y byddant yn ymfalchïo yn y gwaith y mae eu rhoddion yn ei wneud, nid yn unig yn uniongyrchol trwy effaith eu rhoddion, ond hefyd trwy eu cyfraniad at gymorth ymchwil. Byddwn yn cyflawni hyn drwy ymgysylltu a chyfathrebu â'r cyhoedd.

- Byddwn yn cefnogi staff i gyflwyno eu hymchwil trwy fynd i gynadleddau a chynhyrchu cyhoeddiadau. Byddwn hefyd yn sicrhau bod eu cyflawniad yn cael ei gydnabod yn ffurfiol trwy negeseuon o ddiolch a chydnabyddiaeth gan uwch arweinwyr a'u lledaenu'n fewnol ac yn allanol.

- Byddwn yn sicrhau bod cydweithwyr â rolau gweithredol yn cael yr amser i gyflawni gweithgareddau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi sydd o fudd i yrfaoedd cleifion, rhoddwyr ac aelodau staff, gan wneud Gwasanaeth Gwaed Cymru yn weithle gwych.

- Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar unrhyw eiddo deallusol posibl neu feysydd tebyg o fudd ehangach, er mwyn sicrhau y caiff y gwerth gorau ei greu a'i alinio â nodau strategol ein sefydliad.

Cydnabyddiaethau

Dechreuodd y gwaith ar y strategaeth hon ym mis Ionawr 2023, a chafodd ei llunio a'i fformiwleiddio gyda mewnbwn gan ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys cydweithwyr o Wasanaeth Gwaed Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, GIG Cymru a mannau eraill. Hoffem estyn ein diolch i'r holl randdeiliaid a phartneriaid am eu hadborth amhrisiadwy a'u cydweithrediad trwy gydol y broses hon. Mae cleifion a'r cyhoedd wrth galon yr hyn rydym yn anelu at ei gyflawni, a hoffwn ddiolch i aelodau o'r Panel Cynnwys ac Ymgysylltu am eu hamser a'u hymdrech i gefnogi'r strategaeth hon.

Hoffem ddiolch yn arbennig i Sarah Chappell, Alison Whitehouse, Louise Evans, a Natasha McLaughlin am eu cyfraniadau sylweddol i gefnogi gwahanol elfennau o lunio'r strategaeth.

Diolch i gyd-reolwyr ymchwil ein gwasanaethau gwaed cyfagos, Dr Oluwayomi Adegbaju a Dr Allison Walters, am eu mewnwelediad a'u cydweithrediad.

Dyma ail strategaeth Gwasanaeth Gwaed Cymru i mi gael yr anrhydedd o'i hysgrifennu. Rwyf yn teimlo'n falch dros ben o gael y cyfle i weithio ochr yn ochr â chydweithwyr mor ymroddedig, i ddatblygu'r gwaith o barhau i ddarparu a hyrwyddo Ymchwil, Datblygu ac Arloesi.

Siân James.

Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service